# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei bolisïau, strategaethau, gwasanaethau a swyddogaethau yn dangos ystyriaeth o'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon,
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt, a
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rheini sydd heb.

Mae Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) yn ein helpu i nodi effaith ein penderfyniadau ar wahanol grwpiau o bobl, yn enwedig y rheini sydd â nodwedd warchodedig. Bydd hefyd yn helpu i nodi a effeithir ar unrhyw grŵp penodol yn fwy neu mewn ffordd wahanol i grwpiau eraill.

Gellir nodi effaith gadarnhaol pan fydd y cynnig yn fuddiol neu'n cyflawni gwelliannau ar gyfer rhai neu bob un o'r nodweddion gwarchodedig.

Nodir effaith negyddol pan fydd y cynnig yn debygol o fod yn niweidiol i un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

Gellir nodi dim effaith pan na fydd y cynnig yn effeithio ar un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

**Lle nodir effaith negyddol, rhaid cynnwys ystyriaeth o sut i liniaru'r effaith yn yr AEG.**

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg crefydd neu gred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Asesu'r Effaith ar Grwpiau sy'n rhannu Nodwedd Warchodedig

| Nodweddion Gwarchodedig | Ticiwch un effaith ar gyfer pob grŵp | | | Darparwch fanylion am y dystiolaeth a'r ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i nodi'r effaith neu'r diffyg effaith. | Ar gyfer effeithiau cadarnhaol neu negyddol, rhowch fanylion am yr effaith debygol. | Ar gyfer effeithiau negyddol, rhowch fanylion yr ystyriaeth o ran cam/camau lliniarol. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol Effaith | Negyddol Effaith | Dim Effaith | | | |
| **OEDRAN** | X | X | | Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i leoedd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol.<br><br>Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na chanolfan adnoddau arbenigol.<br><br>Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion | Byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr oed ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol gyda chynnydd cyffredinol yn nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol o ansawdd uchel.<br><br>Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella'r cyd-fynd rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ar gyfer darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu cymhleth.<br><br>Byddai'r opsiynau a nodwyd yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn: | Byddai unrhyw newidiadau yn gofyn am gymorth wedi'i gynllunio'n ofalus i alluogi dysgwyr i addasu i'r lleoliad newydd. Byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.<br><br>Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu perthnasol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.<br><br>Byddai'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer pontio ac ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol.<br><br>Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.<br><br>Mae hyn oherwydd:<br><br>• Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.<br>• Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a CAAau hefyd wedi cynyddu.<br>• Mwy o achosion a mwy o gofnodi mewn perthynas ag anghenion penodol fel | • Cefnogi plant oed ysgol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br>• Cefnogi cwricwlwm cyfannol, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.<br>• Darparu cymysgedd o leoedd asesu drws troi yn CA3 a lleoliadau tymor hir.<br>• Lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, a lleoliadau y tu allan i'r sir o bosibl.<br>• Sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Yn Nes at y Cartref'.<br>• Sefydlu ymagweddau sy'n gynhwysol o ran rhywedd at yr holl ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd. | Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | awtistiaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG), anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau.<br>• Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymateb i'r galw cynyddol am leoedd anghenion dysgu ychwanegol<br><br>**ILIE Cynradd** - amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 36 o leoedd ysgol arbennig a 52 o leoedd CAA yn 2026/27, gan gynyddu i 45 o leoedd ysgol arbennig a 61 o leoedd CAA yn 2031/32.<br><br>**ILIE uwchradd** - amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 66 o leoedd ysgol arbennig / UCD a 33 o leoedd CAA yn 2026/27, gan gynyddu i fwlch o 128 o leoedd ysgol arbennig / UCD a 39 o leoedd CAA yn 2031/32 os na wneir newidiadau. | • Datblygu ymhellach y cymorth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.<br>• Creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.<br>• Gwella'r ystod o gyfleoedd ôl-16, gan gynnwys llwybrau â chymorth at gyflogaeth.<br><br>Gall newid mewn amgylchedd beri pryder i blant a allai effeithio ar eu dysgu a'u lles.<br><br>Bydd nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddefnyddio Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer eu taith i'r ysgol yn debygol o gynyddu yn unol â'r duedd ar gyfer niferoedd cynyddol o ddisgyblion sydd angen lleoedd mewn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Fodd bynnag, wrth gyfrif am gapasiti parhaol mewn ysgolion arbennig yn unig, gan nad yw'r UCD yn darparu lleoliadau parhaol, amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 260 o leoedd ysgolion arbennig yn 2026/27, gan gynyddu i 288 o leoedd ysgolion arbennig yn 2031/32.<br><br>**ADC/Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog Cynradd -** amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 204 o leoedd ysgol arbennig a 7 lle CAA yn 2026/27, gan ystyried y mesurau dros dro sydd ar waith. Rhagwelir y bydd y bwlch hwn yn cynyddu i 308 o leoedd ysgolion arbennig a 23 o leoedd CAA yn 2031/32, os na wneir unrhyw newidiadau ac na fydd mesurau dros dro yn cael eu hymestyn.<br><br>**ADC/Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog uwchradd -** amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 85 o leoedd ysgol arbennig a 48 o leoedd CAA yn 2026/27, gan gynyddu i 169 o leoedd ysgol arbennig a 47 o leoedd CAA yn 2031/32.<br><br>Byddai nifer y lleoedd sydd eu hangen yn cynyddu i 799 ar gyfer darpariaeth ysgolion arbennig a | Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod.<br><br>Byddai'r cynigion yn gofyn am newidiadau yn strwythurau staffio'r ysgolion. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 126 ar gyfer darpariaeth CAA yn 2036/37 pe bai'r sefyllfa wedi'i modelu yn cael ei hymestyn.<br><br>**CAA CSA Cynradd** - amcangyfrifir bod bwlch darpariaeth o 38 o leoedd CAA yn 2026/27, gan gynyddu i 59 o leoedd yn 2031/32.<br><br>**CAA CSA Uwchradd** - amcangyfrifir bod gwarged darpariaeth o 18 o leoedd CAA yn 2026/27, gan ostwng i 9 lle yn 2031/32.<br><br>Mae’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu’n dda a bod yr arweinyddiaeth a’r llywodraethu’n gryf.<br><br>Nid yw’r Cyngor yn disgwyl i’r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i’r newidiadau arfaethedig. | | |
| **ANABLEDD** | X | X | | Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys darpariaeth benodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. | Byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr oed ysgol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. | Byddai penderfyniadau ynghylch pa ddisgyblion fyddai'n cael eu cynnig i fynychu'r darpariaethau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. | Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella'r cyd-fynd rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ar gyfer darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu cymhleth.<br><br>Byddai'r opsiynau a nodwyd yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn:<br><br>• Cefnogi cwricwlwm cyfannol, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.<br>• Darparu cymysgedd o leoedd asesu drws troi yn CA3 a lleoliadau tymor hir.<br>• Lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, a lleoliadau y tu allan i'r sir o bosibl.<br>• Sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn | newydd yn cael eu gwneud yn unigol.<br><br>Ni ragwelir y bydd dysgwyr yn trosglwyddo o leoliadau arbenigol presennol oni bai bod eu rhieni yn gofyn am hyn.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau mewn dosbarth prif ffrwd ac yn trosglwyddo ar adeg briodol i addysg arbenigol.<br><br>Mae gwaith cynllunio a chefnogi o ansawdd uchel ar gyfer pontio wedi'i hen sefydlu yng Nghaerdydd ac mae wedi'i deilwra lle bo angen i anghenion penodol rhieni a dysgwyr.<br>. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | unol â'r strategaeth 'Yn Nes at y Cartref'.<br>• Sefydlu ymagweddau sy’n gynhwysol o ran rhywedd at yr holl ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.<br>• Datblygu ymhellach y cymorth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.<br>• Creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.<br>• Gwella'r ystod o gyfleoedd ôl-16, gan gynnwys llwybrau â chymorth at gyflogaeth.<br><br>Gall newid mewn amgylchedd beri pryder i | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | blant a allai effeithio ar eu dysgu a'u lles. | |
| **AILBENNU RHYWEDD** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn. | | |
| **HIL** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Ym mis Ionawr 2025, roedd 40.2% o ddysgwyr mewn darpariaeth ysgolion prif ffrwd statudol yng Nghaerdydd wedi'u cofnodi fel Prydeinig Heb Fod yn Wyn (CYBLD 2025).<br><br>Mae hyn yn cymharu â 43.2% o ddysgwyr oed statudol yn y ddarpariaeth ysgolion arbennig yng Nghaerdydd (CYBLD 2025). | | |
| **CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn. | | |
| **RHYW** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Mae data CYBLD yn dangos, ym mis Ionawr 2025, bod 49.3% o ddysgwyr oed statudol sy'n mynychu ysgol brif ffrwd yng Nghaerdydd yn fenywod a 50.7% yn wrywod. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cofnodwyd bod 24.9% o ddysgwyr oed statudol sy'n mynychu ysgol arbennig yng Nghaerdydd yn fenywod a 75.1% yn wrywod. | | |
| **CYFEIRIADEDD RHYWIOL** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn. | | |
| **PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn. | | |
| **BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH** | | | X | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn. | | |

## Cyfranogiad

Wrth gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'r ddeddfwriaeth yn dweud:

> ***Rhaid** i ni gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ein swyddogaethau.*
>
> *Efallai y byddwn hefyd yn cynnwys neu'n ymgynghori â phobl eraill fel y tybiwn yn briodol, ond wrth ystyried hyn, mae'n **rhaid** i ni roi sylw i'r angen i gynnwys pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ein swyddogaethau.*

Yn gryno felly, os yw'r AEG wedi nodi grwpiau o bobl yr effeithir arnynt yn sylweddol, rhaid i chi wneud trefniadau i'w cynnwys, y bobl sy'n eu cynrychioli neu'r rheini sy'n eirioli ar eu rhan.

Am gyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bobl, ac i helpu i nodi'r dull(iau) mwyaf effeithiol, cysylltwch â Chanolfan Ymgysylltu ac Ymchwil Caerdydd ymgynghoriad@caerdydd.gov.uk.Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael hefyd yn y Canllawiau AEG.

| **Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i gynnwys pobl?**<br>*Nodwch y manylion isod fel y bobl neu grwpiau yr ymgysylltwyd â hwy; y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd e.e. arolygon, grwpiau ffocws, gweithdai, cyfweliadau, ymgynghori ffurfiol ac ati.* |
|---|
| Mae Cabinet y Cyngor wedi awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar y newid arfaethedig.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad yn:<br><br>• cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog yn nodi cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ledled y ddinas, Aelodau etholedig, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill<br>• cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog a oedd yn nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori<br>• cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill<br>• cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg<br>• cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned<br>• cynnig cyfarfodydd ymgynghori i bob Corff Llywodraethu a staff (yn ôl yr angen) trwy Microsoft Teams<br>• cynnig cyfarfodydd ymgynghori wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr disgyblion<br>• cyfarfod ymgynghori cyhoeddus wyneb yn wyneb lle caiff y cynigion eu hesbonio a chwestiynau eu hateb.<br>• sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle mae swyddogion ar gael i ateb cwestiynau<br>• byddai llythyrau’n nodi manylion y cynigion a sut mae cael gafael ar ragor o wybodaeth yn cael eu hanfon at breswylwyr a busnesau lleol yng nghyffiniau safleoedd yr ysgol sy’n destun y newidiadau arfaethedig<br>• ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost ar gael i’w lawrlwytho ar-lein yn Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |

| |
|---|
| • Ffurflenni ymateb ar-lein yn Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br><br>Bydd y safbwyntiau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn llawn ac yn llywio cam nesaf y broses. |

**Yn dilyn yr ymgysylltu, cofiwch ddiweddaru'r asesiad effaith gyda'r canfyddiadau ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad.**

## Monitro Camau Gweithredu Lliniarol

**Rhestrwch unrhyw gamau gweithredu lliniarol isod. Sut caiff y cynnydd ei fonitro?**
*Rhowch fanylion am beth yw'r camau gweithredu lliniarol hyn; sut y caiff y camau gweithredu eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau, er enghraifft drwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth; pryd y disgwylir i'r camau gweithredu lliniarol gael eu cyflawni; a phwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r camau gweithredu.*

| Cam Lliniarol | Trefniadau Monitro | Dyddiad Cyflwyno Disgwyliedig | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd yr ysgol yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. | Panel Derbyniadau ADY; ysgolion unigol | Yn barhaus | |
| Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY. | Panel Derbyniadau ADY | Yn barhaus | |
| Byddai unrhyw newidiadau yn gofyn am gymorth wedi'i gynllunio'n ofalus i alluogi dysgwyr i addasu i'r lleoliad newydd. Byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath. | Bwrdd Prosiect / Ysgolion / Tîm ADY | Erbyn y dyddiad gweithredu disgwyliedig | Rheolwr Prosiect |
| Byddai cynigion i ehangu / sefydlu canolfannau adnoddau a darpariaeth ysgolion arbenigol yn gofyn bod Cyrff Llywodraethu perthnasol yn ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau / sefydliadau. | Cyrff Llywodraethu / AD | Erbyn dyddiad gweithredu disgwyliedig y cynigion | Rheolwr Prosiect |
| Byddai'r Cyrff Llywodraethu'n cael eu hannog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion AD. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu am y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol. | Cyrff Llywodraethu / AD | Erbyn y dyddiad gweithredu disgwyliedig | Rheolwr Prosiect |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. | Cyrff Llywodraethu / AD | Erbyn y dyddiad gweithredu disgwyliedig | Rheolwr Prosiect |
| Byddai angen i unrhyw newidiadau i adeiladau/ystafelloedd ystyried ystod fanwl o wybodaeth e.e., dyluniad/hygyrchedd unrhyw adeiladau/ystafelloedd ysgol a chamau priodol i sicrhau bod yr holl ddarpariaethau’n hygyrch. | Bwrdd Prosiect / Tîm CTY / ysgolion | Erbyn y dyddiad gweithredu disgwyliedig | Rheolwr Prosiect |
| Bydd angen gwella a/neu ehangu cyfleusterau gollwng a chasglu, neu bydd angen cyfleusterau newydd addas, ym mhob lleoliad ysgol p’un ai ar safle newydd neu bresennol, sydd â galw newydd neu gynyddol am gerbydau Trafnidiaeth i Ddysgwyr. Byddai angen i'r ardaloedd dan sylw ddarparu ar gyfer nifer priodol o gerbydau a allai fod yn fras tua un tacsi i bob 3 disgybl. Mewn rhai achosion, gall bysus mini fod yn addas, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, lleoliadau cartref a llwybrau. | Bwrdd Prosiect / Tîm CTY / Tîm Trafnidiaeth | Erbyn y dyddiad gweithredu disgwyliedig | Rheolwr Prosiect |